



'...het a chantel lled fawr, ar ochr ei ben, nes rhoddi golwg chwareus, waggish iddo.'

ni fynnai bortreadu ei arwr yn ei ddull cyffredin, pan yn ei siop, neu yn cerdded. Pe buasai wedi bod yn ddigon ystwyth i gamu ychydig ar yr het, buasai i'w gelfwaith uwch clod gan y genhedlaeth bresennol yn y dref'.

#### 'Canmolwn yn awr...'

Cofféir Daniel Owen a'i weithiau llenyddol mewn sawl dull a modd yn Yr Wyddgrug heblaw cerflun Goscombe John ohono.<sup>14</sup>

Erbyn hyn, mae'r cerflun yn sefyll ar gornel Sgwâr Daniel Owen, ynghanol y dref. Saif canolfan gymunedol<sup>15</sup> a chanolfan siopa sy'n dwyn enw'r nofelydd gerllaw. Helaethwyd a diweddarwyd y ganolfan siopa yn ddiweddar; enw'r perchnogion presennol yw 'Daniel Owen Estates'. Yn siambr Cyngor Tref Yr Wyddgrug ceir rhestr o gadeiryddion yr hen Gyngor Dinesig; enw Daniel Owen yw'r cyntaf arni. Enwyd stryd ar gyrion y dref yn 'Llys Daniel Owen'.

Uwchben Llyfrgell y Dref mae Ystafell Goffa Daniel Owen – ei helaethu'n ddwy ystafell bellach: y nofelydd yn synfyfrio yn ei lolfar parthed ymgorffori Terfysgoedd Yr Wyddgrug (1869) yn ei nofel *Rhys Lewis*, a'i weithwyr wrthi yn y gweithdy y drws nesaf. Ceir sawl eitem a phanel dehongliadol sy'n gysylltiedig â Daniel Owen yn yr amgueddfa leol gerllaw.

#### Trefn darlithiau coffa i Ddaniel Owen

Rhwng canol y saithdegau a dechrau'r nawdegau trefnodd hen Bwyllgor Ystafell Goffa Daniel Owen gyfres o ddarlithiau coffa gan siaradwyr gwadd ar wahanol agweddau ar fywyd a gwaith y nofelydd. Cyhoeddwyd y rhan fwyaf ohonyn nhw ar ffurf llyfrynau dwyieithog dan olygyddiaeth y Parchedigion J.Eirian Davies a T.Trefor Parry.

Ym 1951, dadorchuddiodd yr Athro Tom Parry garreg goffa ar safle cartref genedigol Daniel Owen yn Long Row, Maesydre.<sup>16</sup> Un arall a fu yno ar y dydd oedd T.Ceiriog Williams, Prifathro Ysgol Daniel Owen (hen ysgol uwchradd fodern y dref); bu'n gyfrwng i gasglu a gwarchod nifer o eitemau sy'n gysylltiedig â'r nofelydd.

Pan ymgorfforwyd hen siop deiliwr Daniel Owen yn Nhafarn y Cross Keys yn y Stryd

Newydd, newidiwyd enw'r dafarn i 'Y Pentan'. Ym 1982 gosodwyd plac ar y wal i nodi mai yno yr ysgrifennodd rai o'i nofelau.

Ym 1995, canmlwyddiant marw Daniel Owen, dadorchuddiwyd ffenestr liw o waith Chris Bird-Jones. Mae'n cynnwys sawl cyfeiriad mewn gair a llun at ei fywyd, a'i oes, a'i waith fel teiliwr a nofelydd. Yr un pryd gosodwyd plac yng Nghapel Bethesda i'w goffáu fel nofelydd, teiliwr, pregethwr, gwleidydd ac addolwr yn y capel hwnnw.

Yn ogystal â'r dulliau ffurfiol uchod o goffáu 'Tad y Nofel Gymraeg', ceir hefyd yn ei dref enedigol: Siop y Siswrn,<sup>17</sup> Cymdeithas Wil Bryan (clwb cinio Cymraeg i ddynion), Cwmni Drama Y Dreflan, côr a elwir Parti'r Pentan a stryd yn dwyn yr enw 'Dreflan'.

*Y tro nesaf: Goscombe John yn dychwelyd i'r Wyddgrug ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1923 ac yn talu teyrnged i un arall o'i arwyr.*

#### NODIADAU A FFYNONELLAU

1. Lord, Peter: *Diwylliant Gweledol Cymru: Delweddu'r Genedl, Caerdydd*, 2000.
2. Ibid. darluniau o'r cerflun, tt.350 a 351
3. Ibid. darlun o'r cerflun, t.348; a darlun o benddelw Goscombe John ohono yng Nghapel Bangor, t.352
4. Ibid. darlun o'r cerflun, t.349
5. Ibid. darlun o'r cerfluniau. t.352
6. Ibid. t.352
7. Ibid. darlun o'r cerflun, t.359
8. Sharples, Joseph. *Liverpool (Pevsner Architectural Guides)*. 2004. manylyn, p.vii
9. Jones, J.H. *O'r Mwg i'r Mynydd, sef gwibdeithiau Gol. "Y Brython" oddicartref*. 1913. t.13
10. Foulkes, Isaac. Daniel Owen y Nofelydd: Bywgraffiad, 1903. tt.177, 178
11. Lord, Peter. op. cit. t.348
12. *The North Wales Pioneer*, Friday, September 22nd, 1899. p.7
13. Owen, John [Y Parchedig]. *Cofgolofn Daniol Owen*. Yn O.M. Edwards [gol]. *Cymru*, Ionawr 1902, tt.53-56 (cyfrol wedi'i rhwymo, yng nghasgliad Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Cyngor Sir Y Fflint)
14. Cyfeiriodd John Owen at anfodlonrwydd lleol ag ymdriniaeth Goscombe John o het y nofelydd. Os byddwch yn Yr Wyddgrug rywdro, chwiliwch am enghraifft arall o 'fesur o ryddid' y cerflunydd (mewn perthynas â'r copi o *Rhys Lewis* sydd yn llaw'r gwrthrych).
15. Pan ddathlodd y Ganolfan Gymunedol ei phenbwydd yn 25 oed ym 1998, comisiynwyd yr arlunydd P.J. (Pam) Crook i baentio darlun sy'n dwyn yr enw: *Bore Coffi Cymunedol / Community Coffee Morning*. Er i'r darlun bortreadu gweithgarwch cyfoes, mae'r arlunydd wedi gosod Daniel Owen ynddo (ddwywaith!), ynghyd â gŵr ifanc yn darllen *Gwen Tomos* (gyda chopi o *Rhys Lewis* wrth law).
16. Yn ei golofn yn *Y Cymro* am Chwefror 22ain 2006, dywed Geraint Jones, Trefor mai o Chwarel Ithfaen Yr Eifl daeth y garreg hon. Yno hefyd, meddai, y cloddiwyd y cerrig ar gyfer y plinth sy'n cynnal y cerfluniau o Owen M. Edwards a'i fab Syr Ifan yn Llanuwchllyn, ac ar gyfer y cofebau i I.D.Hooson ar Fynydd Rhiwabon, Llywelyn

ein Llyw Olaf yng Nghilmeri a'r Hen Wr o Bencader.

17. Mae Selwyn ac Anne Evans, perchnogion Siop y Siswrn, yn rhoi'r Gadair, y Fedal Ryddiaith a gwobr sylweddol i Eisteddfod Genedlaethol Yr Wyddgrug 2007. Yn ogystal, Selwyn yw Cadeirydd Pwyllgor Cyllid yr Eisteddfod.

*(Seiliedig ar erthyglau a ymddangosodd yn Papur Fama - papur bro Yr Wyddgrug a'r cylch - rhifynnau Tachwedd 2005, Rhagfyr 2005, Ionawr 2006 a Chwefror 2006).*

#### AR WERTH

1. Bowen, E G, Saints, Seaways and Settlements in the Celtic Lands, UWP, 1977 £5.00
2. Doble, G H, Lives of the Welsh Saints, UWP, 1971 £5.00
3. Lewis, Saunders, Meistri a'u Crefft, GPC, 1981 £6.50
4. Smith, W D (ed.), Herbert Correspondence, UWP, 1963 £7.50
5. Robert, Griffith, Dosparth ar yr Ail Rann &c, adarg. Scholar Press, £3.50
6. De Bhaldrathe, T, English-Irish Dictionary, 1959 £5.00
7. Rolleston, T W, Myths and Legends of the Celtic Race, adarg. Harrap, 1949 £4.00
9. Pope, D, Harry Morgan's Way [Cofiant y môr-leidr o Gymro], 1977 £4.50
10. Christiansen R & Miller R W, The Cambrian Railways Vol II £4.00

#### Cludiant yn ychwanegol

Rhy ddrud? Gwnewch gynnig! Ymchwilio am lyfr? Ymholwch a ni.

#### BRUCE GRIFFITHS

5 HEOL BELMONT, BANGOR, GWYNEDD, LL57 2HS.

Ffonier: 01248 371987

neu e-bostier: anncorkett@talktalk.net

#### Cyfeillion Llên

Bydd y cyfarfod nesaf o garedigion ein llên yn cyfarfod yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ddydd Sadwrn 19eg o Fai. Thema'r diwrnod eleni yw Hiwmor. Byddwn yn ymgynnull am 11.00 am banded yna darlith yn y bore gan y **Parch Huw Jones (Bala)**, cinio yn ffretur y Llyfrgell, a darlith ddechrau'r prynhawn gan **Emyr Llywelyn**. Wedi paned byddwn yn cychwyn am adref cyn 3.30.

Mae croeso cynnes i bawb ddod i'n cyfarfodydd. Y ffi am y dydd fydd £15 sydd ddim yn cynnwys cost pryd ganol dydd. Os am ychwaneg o wybodaeth neu i gofrestru am y diwrnod cysylltwch â Dennis Roberts, Gerallt, 16 Brynffynnon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SX, 01248 670858, [thr.felin@tiscali.co.uk](mailto:thr.felin@tiscali.co.uk) hefyd er gwybodaeth dyma gopi o e-bost i'r Cadeirydd dyddiedig 21/11/2006

Mae gwybodaeth ar gael ar y wefan isod ynglŷn â chofrestru enw gwefan megis [www.casglwr.cymru.org](http://www.casglwr.cymru.org) . org a dim .com sydd ar gael. Ymddiheuraf am gamarwain y pwyllgor dydd Sadwrn.

<http://www.domains.wales.com/>